**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ryddid i Ffynnu: P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiwygio gwasanaethau bysiau yn y DU, gan wneud hynny yn y ffordd fwyaf eang ers dadreoleiddio bysiau ym 1986. Byddwn yn dod â bysiau yn ôl dan reolaeth y cyhoedd drwy ein cynlluniau i fasnachfreinio bysiau ledled Cymru. Ar yr un pryd byddwn yn codi'r gwaharddiad ar greu cwmnïau bysiau trefol, gan ganiatáu i awdurdodau lleol ffurfio eu cwmnïau bysiau eu hunain.

Bydd y newid hwn yn gwrthdroi bron i ddeugain mlynedd o breifateiddio sydd wedi gweld y sector cyhoeddus yn colli rheolaeth ar lwybrau bysiau, amserlenni bysiau a'r prisiau a godir ar deithwyr cyhoeddus. Yn y pen draw, mae hyn yn golygu bod gweithredwyr bysiau masnachol wedi gwneud penderfyniadau nad ydynt o reidrwydd er lles teithwyr.

Er mwyn darparu gwell gwerth i deithwyr bysiau rydym yn ariannu cynllun tocynnau rhatach sy'n cynnig teithiau am ddim i bobl dros 60 oed neu sydd ag anableddau penodol. Rydym hefyd yn ariannu FyNgherdynTeithio sy'n cynnig gostyngiad o 1/3 i bobl ifanc 16-25 oed (gyda phobl dan 16 oed yn talu prisiau plant). Wrth gwrs, hoffem fynd ymhellach na hyn; ac yn wir roeddem yn cynllunio cyflwyno cynllun Prisiau Tecach a fyddai'n gweld pris gostyngol iawn yn cael ei gynnig i bob teithiwr ond nid yw'r rhagolygon cyllidol wedi caniatáu inni symud ymlaen â'r fenter hon. Yn hytrach, rydym wedi buddsoddi ein cyllid i ddiogelu cymaint o'r rhwydwaith bysiau â phosibl gan sicrhau bod gwasanaethau bysiau ar gael ledled Cymru. Heb yr ymyrraeth hon, mae'n debygol y byddem wedi gweld gwasanaethau bysiau yn cael eu canslo yn gyfan gwbl wrth i'r diwydiant barhau i brofi lleihad yn y defnydd o wasanaethau a chostau cynyddol sy'n deillio o bandemig Covid.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1**.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi uchelgais clir i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc cyn gynted â phosibl.

**Ymateb:** Derbyn.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ystyried ymestyn FyNgherdynTeithio i gynnig tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc. Wrth inni baratoi ar gyfer cyflwyno masnachfreinio, byddwn yn ystyried a yw'r rhagolygon ariannol yn caniatáu inni gyflwyno cynllun o'r fath.

Ar wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, rydym eisoes yn darparu teithio am ddim i bobl ifanc sy'n teithio gydag oedolyn sy'n talu am docyn, gan leihau cost trafnidiaeth gyhoeddus i deuluoedd. Mae plant dan 11 oed yn teithio am ddim ar ein holl drenau, ac mae pobl dan 16 oed yn rhad ac am ddim ar wasanaethau y tu allan i oriau brig. Yn ogystal, mae Cerdyn Rheilffordd 16-17 Saver sy'n cynnig 50% oddi ar y rhan fwyaf o docynnau trên ledled Cymru a Lloegr, nid gwasanaethau Trafnidiaeth Cymru yn unig. Gellir ei ddefnyddio bob dydd o'r flwyddyn heb unrhyw gyfyngiadau amser nac isafswm pris. Er bod cost flynyddol o £30 am y cerdyn, yr arbediad cyfartalog y llynedd oedd £367, gan ei wneud yn fuddsoddiad gwerth chweil i deithwyr rheolaidd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim, rhaid talu unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 2**.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith paratoi gyda golwg ar gyflwyno cynllun trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, waith i ddeall arferion teithio ac arferion teithio presennol pobl ifanc.

**Ymateb:** Gwrthod.

Rydym eisoes wedi cynnal dadansoddiad manwl o wahanol gynlluniau prisiau yr oeddem wedi gobeithio eu cyflwyno yn gynharach yn nhymor y Senedd hon. Rydym bellach yn canolbwyntio ar wneud paratoadau ar gyfer masnachfreinio, sef y diwygiad mwyaf uchelgeisiol o ran darparu gwasanaethau bysiau ledled y DU. Mae'n briodol ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig ar gynllunio a darparu masnachfreinio.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 3**.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol i gychwyn trafodaethau ynghylch gwell cludiant rhatach i bobl ifanc. Dylai hyn gynnwys y diwydiant bysiau, undebau llafur, gweithredwyr cynlluniau rhatach, awdurdodau lleol a grwpiau gwarchodedig a grwpiau agored i niwed.

**Ymateb:** Gwrthod.

Os bydd sefyllfa lle gallwn gyflwyno cynllun teithio am ddim i bobl ifanc, byddwn yn ymgysylltu'n sylweddol ag ystod eang o randdeiliaid a chynrychiolwyr grwpiau gwarchodedig a grwpiau agored i niwed. Tan hynny, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gynllunio a gweithredu masnachfreinio.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 4**.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw ei gwaith i ddiwygio'r sector bysiau yng Nghymru yn creu unrhyw rwystrau i gyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc cyn gynted â phosibl.

**Ymateb:** Derbyn.

Bydd masnachfreinio yn rhoi rheolaeth lwyr inni dros brisiau rhwydwaith bysiau Cymru yn y dyfodol. Fel rhan o'n gwaith i baratoi ar gyfer masnachfreinio, mae dau safbwynt i'r strategaeth brisiau y bydd angen eu hystyried. Mae'r cyntaf yn ymwneud â strwythur ein prisiau; a'r ail, y pris. Mae hwn yn ddewis penodol gan ei fod yn caniatáu inni sicrhau ein bod yn cyflwyno strwythurau prisiau a all ddarparu ar gyfer ystod eang o brisiau tocynnau gan gynnwys tocynnau dim prisiau. Mae hyn yn golygu, pe bai'r rhagolygon ariannol yn caniatáu y byddwn yn gallu cyflwyno trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc yn ddi-oed.

**Goblygiadau ariannol:** Dim, rhaid talu unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

**Ken Skates AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth